



Gwybodaeth ddefnyddiol

CEFNDIR

CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Yng Nghymru, mae pobl bob amser wedi dod ynghyd o'u gwirfodd, nid am arian nac am fod y gyfraith yn dweud wrthyn nhw, ond am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth.

I gael gwybod mwy am CGGC a'n hymdrechion i gefnogi'r trydydd sector yng Nghymru, ewch i'n gwefan www.wcva.cymru.

BUDDSODDWR MEWN POBL (IIP)

Mae CGGC wedi ennill cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae'r Buddsoddwyr mewn Pobl yn safon genedlaethol sy'n gosod lefel arferion da ar gyfer gwella perfformiad mudiad drwy ei bobl. Mae CGGC yn ymrwymedig i gynnal hyfforddiant a datblygiad cyfredol a pharhaus pob un o'i gyflogeion.

CANLLAWIAU AR LENWI EICH FFURFLEN GAIS

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus wrth lenwi eich ffurflen gais. Fel rhan o ymrwymiad CGGC i gyfle cyfartal, eich ffurflen gais a'ch llythyr eglurhaol yw'r unig wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i benderfynu ar eich addasrwydd i gael cyfweiliad, felly sicrhewch eich bod yn eu defnyddio! Dylech sicrhau eich bod yn darllen yr holl wybodaeth a anfonwyd atoch.

Mae **Adran A** yn grwpio manylion personol ymgeisydd gyda'i gilydd, gan gynnwys gwybodaeth am rywedd, statws priodasol, oedran a tharddiad ethnig ymgeisydd, a fydd yn cynorthwyo CGGC i fonitro effeithiau ei bolisi cyfle cyfartal ac yn cyfrannu at ei ddatblygiad.

Mae **Adran B** yn grwpio gwybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio i lunio rhestr fer sy'n seiliedig ar y fanyleb unigolyn ar gyfer y swydd (wedi'i hamgáu).

Bydd **Adran A** yn cael ei datgysylltu cyn llunio'r rhestr fer a'i storio ar wahân. Felly, bydd y panel llunio rhestr fer dim ond yn gallu gweld yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn **Adran B**.

Addysg a hyfforddiant

Dylid cynnwys addysg ffurfiol ac anffurfiol ynghyd ag unrhyw gymwysterau a enillwyd. Cofiwch gynnwys unrhyw hyfforddiant sgiliau arbennig, diwrnodau astudio a chyrsgiau nos. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi am brawf o'ch cymwysterau.

Hanes cyflogaeth

Dylech roi manylion llawn eich hanes cyflogaeth, gan gynnwys unrhyw waith di-dâl/gwirfoddol ac unrhyw gyfnodau o ddiweithdra, heb adael unrhyw fylchau.

Ein swyddfeydd

Mae gennym ni ganolfannau swyddfa yn Abergele, Aberystwyth a Chaerdydd. Gall cyfweiliadau gael eu cynnal dros alwadau fideo neu'n bersonol yn un o'r swyddfeydd hyn.

Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol

Mae'r adran hon o'ch ffurflen gais yn bwysig iawn. Dyma le rydych chi'n pleidio'ch achos dros gael y swydd. Edrychwch ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y swydd a dangoswch fod gennych chi'r pethau hyn drwy roi enghreifftiau penodol. **Peidiwch â diystyru gwerth gwaith di-dâl/gwirfoddol!** Dylech gynnwys unrhyw sgiliau neu brofiadau perthnasol rydych chi wedi'u cael y tu allan i waith amser llawn, er enghraifft, efallai eich bod yn trefnu

gweithgareddau o fewn y gymuned neu gyda chryn dipyn o gyfrifoldebau gartref.

Geirdaon

Dylai un o'ch geirdaon ddod o'ch cyflogwr presennol neu, os ydych chi'n chwilio am eich swydd gyntaf ar ôl cwblhau hyfforddiant, eich tiwtor coleg, pennaeth ysgol neu athro. Os nad ydych chi wedi bod yn gyflogedig o'r blaen neu wedi bod allan o'r byd gwaith am gyfnod sylweddol o amser, efallai yr hoffech nodi enw'r sawl sy'n eich adnabod yn ddigon da i gadarnhau'r wybodaeth a roddwyd a rhoi sylwadau ar eich gallu i wneud y swydd.

Byddwn yn gofyn am eirdaon ar ôl i'r ymgeiswyr gyrraedd y rhestr fer. Dylech nodi a ellir cysylltu â'ch canolwyr ar yr adeg hon.

Cyfle cyfartal

Mae CGGC yn ymrwymedig i Gyfle Cyfartal ac mae ffurflen fonitro wedi'i chynnwys o fewn y ffurflen gais.

Hoffai CGGC sicrhau ymgeiswyr na fydd y ffurflen hon yn cael ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio a bydd yn cael ei datod o'ch ffurflen gais unwaith i ni ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol a dim ond yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro er mwyn asesu effeithiolrwydd ein polisi cyfle cyfartal.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn ni'n cydnabod derbyn ceisiadau a dderbynnir drwy e-bost, ond nid ceisiadau a dderbynnir mewn llaw na thrwy'r post. Amgaeewch amlen â chyfeiriad a stamp os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi'i derbyn.

Ar ôl i'r panel lunio'r rhestr fer, byddwn ni'n ffonio'r holl ymgeiswyr llwyddiannus i'ch gwahodd chi i'r cam nesaf, sef y cyfweiliad fel arfer. Bydd yr alwad ffôn hwn yn cael ei gadarnhau drwy e-bost.